
**Y Tŵr**
gan Gwenlyn Parry
Cyfr. Aled Pedrick
Cwmni Invertigo
*Theatr y Lyric, Caerfyrddin, 2 Chwefror*

# Byw a'i boen

**Bu HANNAH SAMS yn gweld drama gyfarwydd ar newydd wedd, a chael ei phlesio.**



*Llun: Savannah Photographic*

"

Ailgodwyd y Tŵr, a'i osod ar sylfaen o actio da, set effeithiol ac ailddehongli ffres mewn perfformiad campus.

Dyma ail gynhyrchiad cwmni theatr Invertigo o Lundain o waith Gwenlyn Parry, yn dilyn eu cynhyrchiad o *Saer Doliau* yn 2013. Roedd cyfarwyddo Aled Pedrick ac actio Catherine Ayers a Steffan Donnelly yn allweddol i lwyddiant y cynhyrchiad hwnnw yn theatr Finborough, Llundain. Ac wele'r un triawd yn awr yn atgyfodi *Y Tŵr*, drama sy'n cwmpasu taith bywyd a pherthynas dyn a menyw. A allent ailadrodd eu camp gynharach?

Gosodwyd y ddrama ar sail gadarn trwy gastio Steffan Donnelly a Catherine Ayers yn rôl y cymeriadau dienw, cymeriadau sy'n cynrychioli neb a phawb ar yr un pryd. Cafwyd perfformiadau teimladwy gan y ddau, yn enwedig yn yr act ddirdynnol olaf. Yn 1979 nododd Saunders Lewis fod rhythmau deialog llafar Gwenlyn Parry 'yn gofyn cryn graffter yn ei actorion', a llwyddodd Steffan Donnelly, yn arbennig, i drosglwyddo'r rhythmau hyn.

Drama dau gymeriad, meddwn gynnau, ond mae ynddi dri os ydym yn cyfrif grisiau hollbresennol y Tŵr fel trydydd cymeriad, fel y gwnâi Gwenlyn Parry. Wrth gerdded i mewn i Theatr y Lyric yng Nghaerfyrddin, nid y grisiau troellog – delwedd sy'n gysylltiedig â'r *Tŵr* ers cynllun set wreiddiol Martin Morley (Cwmni Theatr Cymru, 1978) – a'n cyfarchodd, ond yn hytrach gyfres o focsys gwyn ymddangosiadol ddi-drefn. A thrwy ddefnyddio'r bocsys mewn modd crefftus a chwareus, rhywbeth sy'n dwyn i gof waith Beckett i raddau, ffurfiwyd y grisiau sy'n gormesu'r ddrama. Er i Aled Pedrick ymwrthod â defnyddio delwedd sy'n gysylltiedig â'r *Tŵr*, llwyddodd i ailddiffinio'r set ac ni chollwyd grym y symbol. Os rhywbeth fe'i grymuswyd. Wedi dweud hynny, aed gam yn rhy bell gyda'r groes a ffurfiwyd o siâp y bocsys yn yr act olaf. Roedd siâp y groes yn ganolbwynt yn ystod y rhan honno, a mynnodd fwy o sylw wrth i'r hen ŵr, a oedd erbyn hyn yn dioddef o salwch difrifol, eistedd ar y bocsys mewn modd a oedd yn dynwared Iesu ar y groes. Braidd yn amherthnasol oedd hyn, yn arbennig o gofio mai hanfod *Y Tŵr* yw'r marc cwestiwn mawr a adewir ar ddiwedd y ddrama. Eto i gyd, gwir y dywed Steffan Donnelly yn y cyfweliad ag ef a gynhwyswyd yn y rhaglen fod yn rhaid wrth dipyn o ailddehongli 'os ydy unrhyw ddrama am siarad yn bwerus efo cenhedlaeth newydd', a llwyddwyd ar y cyfan i gyflwyno elfennau ffres a newydd.

Er fod cerddoriaeth yn rhan o'r cynhyrchiad gwreiddiol, y tro hwn ychwanegwyd elfennau o ddawns i gyd-fynd â'r gerddoriaeth iasol gan ddangos dyfeisgarwch Aled Pedrick unwaith eto. Roedd hyn ar ei rymusaf yn ystod yr olygfa garu ar ddiwedd yr act gyntaf. Wrth i'r ddau gydio yn ei gilydd, a hynny mewn modd a oedd yn ymddangos yn dreisgar, llwyddwyd i droi golygfa garu yn olygfa a oedd yn dangos natur dreisgar ac anhapus eu perthynas, gan atgyfnerthu'r awgrym a geir yn y ddrama mai serch yn hytrach na chariad yw sail y berthynas: 'Gwasga fi'n dynn'. Dyna yw eu hateb yn wyneb pob cyfyngder.

'Ti'n barod ta?' Dyna eiriau olaf yr hen ŵr wrth ei wraig yn y ddrama ar ôl iddo atgyfodi a dychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol. Fodd bynnag, wrth wylio dau gymeriad yn dadfeilio o'n blaenau ar y llwyfan cawsom ni fel cynulleidfa ein hatgoffa, lle bynnag yr ydym arni yn 'y Tŵr', fod yn rhaid inni ddringo a wynebu'r diwedd ansicr. Yn ôl Saunders Lewis, nid oes dim yn digwydd yn y ddrama hon 'ond byw a'i boen'. A thrwy ailgodi'r Tŵr, a'i osod ar sylfaen o actio da, set effeithiol ac ailddehongli ffres, profwyd y byw a theimlwyd ei boen yn y perfformiad campus o'r ddrama oesol hon.